Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 9. Rhif 5.] MAI, 1909. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Af Edyn Ffydd.
Anerchiad.
Adgof Uwch Anghof.
Nodion y Mis.
Tarddiant a Thyfiant y Beibl.
Efail y Gof.
Y Progressive Leagues.
Tu Hwnt i'r Llen.
Congl yr Awen (gyda darlun).
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

— GAN Y —

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili).

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

JUST ISSUED. A SHORT CATALOGUE OF

RARE SECOND-HAND BOOKS

in Welsh or relating to Wales, on Sale at the YMOFYNYDD Office, Llandyssul. Applications invited.

At ein Derbynwyr a'n Dosbarthwyr.

Gofynir am y taliadau am yr haner blwyddyn bresenol yn gynt nag arferol, er mwyn rhoddi cyfleusdra i wastadhau y cyfrifon a pharotoi *Balance Sheet* erbyn y Cyfarfodydd Blynyddol yn Cwrtnewydd yr wythnos olaf yn mis Mehefin.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1909. [CYF. IX. RHIF 5.

AR EDYN FFYDD.

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
Dy gyfiawnder fyddo 'ĭ grym ;
Cadw hi rhag llid gelynion—
Rhag ei beiau'n fwy na dim :
Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena'th aden dros ein gwlad.

Yma mae beddrodau'r tadau,
Yma mae ein plant yn byw ;—
Boed pob aelwyd dan dy wenau,
A phob teulu'n deulu Duw ;
Rhag pob brad, nefol Dad,
Cadw Di gartrefi'n gwlad.

Gwna'n Sabbathau'n ddyddiau'r nefoedd,
Yn ngoleuni'th ddeddfau glân ;
Dyro'r gwlith i'n cymanfaoedd,
Gwna ein crefydd fel ein cân :
Nefol Dad, boed mawrhad
Ar d'efengyl yn ein gwlad.—*Elfed.*

DRUGAROCAF DAD, a Brenin brenhinoedd y ddaear, arnat Ti y dibynwn bob amser am ein diogelwch, a'n lles, a'n llwyddiant ; estyn, atolwg, dy ddaioni atom ni ac at holl drigolion ein gwlad. Hyspys i Ti ein angenion a'n peryglon. Arwain ni â'th gyngor, nertha ni â'th allu, sancteiddia'n meddyliau, pura'n calonau, fel y byddo ini, wrth edrych i fyny atat Ti fel ein hunig ymgeleddwr a ffynonell ein holl fendithion, gael derbyn y fendith anrhaethol o'th amddiffyniad hollalluog a'th ffafr nefol. A'r hyn ofynwn i ni ein hunain a ddymunwn i bawb. Amen.

ANERCHIAD

A draddodwyd gan Mr. John Harrison, Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, yn Mhantdefaid, Mawrth 30ain, 1909.

NIS gallaf fynegu yr hyfrydwch a deimlaf pan yn talu fy ymweliad cyntaf a Chymru fel Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor. Yr wyf yn mawr werthfawrogi y fraint o gael dod i gysylltiad ag Undodiaeth Gymreig o dan nawdd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru a Chymdeithas Undodaidd Deddwyrain Cymru. Er nad wyf wedi ymweled o'r blaen a'r eglwysi Undodaidd Cymreig nid wyf yn anhysbys o'r ffaith fod Undodiaid Cymru yn ffyddlon a sefydlog, yn gadarn yn eu hargyhoeddiadau crefyddol, ac yn selog gydag achos crefydd rydd. Gwyddom bawb beth yw hanes

ANGHYDFFURFIAETH YN NGHYMRU ;

yr ydym yn gwerthfawrogi y difrifoldeb a'r gwroldeb gyda pha rai y mae yr egwyddor o ryddid crefyddol wedi bod yn cael ei attegu yn y Dywysogaeth ; yr ydym yn cydnabod nad yw yr achos Undodaidd ddim wedi bod yn cael ei amddiffyn gyda mwy o ffyddlondeb yn un rhan arall o'r Deyrnas Gyfunol. Mae y cyfarfodydd hyn yn Nghymru wedi cael eu trefnu gan y ddwy gymdeithas Gymreig yn nghyd a'r gymdeithas bwysig yr wyf fi yn cael yr anrhydedd o fod yn Llywydd arni. Amcan y cyfarfodydd yw rhoddi i aelodau y Ddirprwyaeth o Lundain wybodaeth mwy cyflawn o anghenion ein heglwysi yn Nghymru, ac hefyd i roddi cyfleustra i ni i estyn i'n cyfeillion Cymreig ein cydymdeimlad a'n cefnogaeth iddynt yn eu profiadau a'u hanhawsderau. Pan wnaed y cynygiad fod dirprwyaeth oddiwrth y Gymdeithas Undodaidd i ymweled a'r rhan hon o'r dywysogaeth, cafodd

DDERBYNIAD BRWDFRYDIG ;

sylweddolai pwyllgor y Gymdeithas y byddai cael cyfarfod a'n cyfeillion Cymreig yn sicr o esgor ar ddaioni. Nid yw yn bosibl mynegu y llawenydd a deimlir gan bawb ag sydd yn eiddigeddus dros lwyddiant ein heglwysi oblegid yr ymdrechion gwrol a phenderfynol amlygir er gwneud crefydd rydd yn allu byw a nerthol yn y rhan hon o'r wlad. Mae safle bellenig a neillduedig llawer o'n heglwysi, anhawsderau arianol o dan ba rai y maent yn llafurio, a llawer o bethau eraill rhy luosog eu henwi, yn blino llawer sydd yn awyddus am weled egwyddorion Undodaidd yn llwyddo. Bydded iddynt gysuro eu hunain a'r ystyriaeth fod iddynt gydymdeimlad mwyaf

calonog eu cydgrefyddwyr yn mhob rhan o'r wlad, ac fod y Gymdeithas y caf yr anrhydedd o'i chynrychioli yn barod i roddi yr ystyriaeth fwyaf difrifol a gofalus i'w hanghenion. Mae y Gymdeithas hon yn awyddus am gynorthwyo yr eglwysi Cymreig yn eu gwaith. Fel ad-daliad am hyny disgwylia'r Gymdeithas am gael cydweithrediad yr eglwysi yn y gwaith o ledaenu egwyddorion Cristionogaeth Undodaidd, yr hon a gredwn bawb yw y grefydd bur a rhesymol.

Dylem bawb ymdrechu mwy i wneud ein hegwyddorion yn wybyddus: mae eisiau i ni gael mwy o ysbryd gwaith i'n plith. Dylem ddeffroi os ydym am lwyddo yr achos Undodaidd a pharhau gwaith da ein tadau.

Mae Cenhadaeth y Van

sydd wedi cael ei fabwysiadu yn ddiweddar gan y Gymdeithas wyf yn gynrychioli yn enghraifft ardderchog o Undodiaeth filwriaethus. Dengys mor awyddus mae swyddogion y Gymdeithas i arfer pob cynllun a fydd yn debyg o symud ymaith anwybodaeth y lluaws mewn perthynas i'r ffydd Undodaidd. Mae Cenhadaeth y Van yn ymdrech genhadol ardderchog, ac yn teilyngu y llwyddiant sydd yn ei dilyn. Os nad yw y Van wedi bod yn foddion i ychwanegu llawer at ein heglwysi, eto y mae hâd da yn cael ei hau, ac y mae yn sicr o ddwyn ffrwyth yn mhen amser. Yr wyf yn llawenhau yn nghenhadaeth y Van am ei bod yn arwyddo ein bod ni bellach yn penderfynu gadael yr agwedd o fod yn oer ac o sefyll ar benau ein hunain, heb ymofidio am nad yw y lluaws yn dod i wrandaw ar ein cenadwri. Mae hyn wedi bod yn nodwedd amlwg yn hanes ein henwad yn y gorphenol. Byddai gweinidogion Undodaidd yn adeg fy ieuenctyd i gael eu dychrynu gan y meddwl am anerch pobl oddiar *blatfform* Van; ond yr ydym ni heddyw wedi dysgu gwers oddiwrth yr enwadau eraill. Os na wna y lluaws ddod i'n heglwysi i wrandaw ar efengyl bur a rhesymol, mae yn ddyledswydd arnom ni i fyned allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau i geisio eu dwyn i fewn. Mae yr efengyl wedi cael ei hymddiried i ni; a gwae ni oni fydd i ni ymdrechu ein goreu i'w chyhoeddi. Yr ydym ni

Undodiaid yr Ugeinfed Ganrif

wedi bod hyd yma yn rhy dueddol o orphwys ar y buddugoliaethau mae ein tadau wedi enill, gan anghofio ei bod yn ddyledswydd arnom ninau i ymladd ein brwydrau ein hunain, a gwneud ein rhan yn ein dydd fel y gwnaethant hwythau. Yr ydym yn rhy barod i gredu fod pobl y tu allan i'n henwad ni yn dod yn fwy rhyddfrydig eu ffydd, ac fod y ddyledswydd o ledaenu yr efengyl Undodaidd ag sydd wedi cael ei gosod arnom ni, yn cael ei chyflawni yn effeithiol y tu allan i'n heglwysi gan rai sydd yn gwrthod derbyn yr enw Undodwr. Credwn fod pwlpudau llawer o'r eglwysi oedd yn cael eu hystyried unwaith yn gaerfa iawnffyddiaeth, yn awr yn cael eu llenwi

gan bregethwyr o feddyliau llawn mor eangfrydig a'r eiddom ninau, ac nad ydym, er fod ein nifer yn myned yn llai, a'n heglwysi yn myned yn wanach, yn colli ond yn enill, gan fod y syniadau goleddwn yn graddol lefeinio yr oll o'r eglwysi uniongred. Efallai bod ychydig wirionedd yn y tybiaethau hyn, a gobeithio ei fod, ond ni fyddai hyny yn ein cyfiawnhau ni am laesu ein dwylaw ar ran Undodiaeth nad oes cywilydd arni o'i henw, nac am esgeuluso y cyfleusdra o eangu cylch dylanwad ein heglwysi. Mae llawer wedi cael ei wneud yn y gorphenol, ond y mae

Llawer mwy yn aros i'w gyflawni

yn y dyfodol eto gan y rhai sydd yn credu mai y ffydd Undodaidd yw yr unig ffydd a all roddi boddlonrwydd cyflawn i'r rhai sydd yn beiddio meddwl drostynt eu hunain. Y cwestiwn ddylem ni holi ein hunain ydyw hwn: A ydym ni fel unigolion yn gwneud yr oll sydd yn ein gallu i ledaenu goleuni crefydd bur, ac i sicrhau llwyddiant yr achos sydd mor anwyl gan bawb o honom?

Gellir dweyd yn ddibetrus am ein gweinidogion eu bod yn gwneud eu goreu. Mae genym gystal gweinidogion ag unrhyw enwad yn y byd; maent yn ddynion ag y mae eu hymgyflwyniad, eu hunanaberth, a'u gallu yn hawlio ein hedmygedd a'n parch mwyaf. Ond nis gellir dweyd yn hollol felly am ein lleygwyr (yr wyf yn siarad fel lleygwr wrth leygwyr). Mae yna lawer o'r bobl gyffredin sydd yn nodedig yn unig ond am eu difaterwch, nad ydynt yn cymeryd dim dyddordeb mewn materion crefyddol, ac yn gadael y ddyledswydd gysegredig o ledaenu yr efengyl Undodaidd i rywrai eraill. Nawr, nid yw hon yn adeg i Undodiaid i aros yn ddifater a diymdrech. Tra y mae arweinwyr yr enwadau eraill yn gwneud eu goreu i lwyddo yr athrawiaeth maent hwy yn gredu ynddi, a ydym ni sydd yn proffesu yr efengyl fwyaf ardderchog i aros ar ol yn y rhedegfa? Byddai yn

Gywilydd Tragwyddol

pe bae i ni, pan y mae yr eglwysi yn gwneud cymaint i broselytio, i laesu dwylaw gyda'n ymdrechion cenhadol. Mae yn ddyledswydd ar bob aelod o'n heglwysi, yn ddieithriad, i gymeryd dyddordeb neillduol nid yn unig yn achos ei eglwys ei hun, ond hefyd yn ngwaith cymdeithas ei gylch, ac yn ngwaith y Gymdeithas yr wyf fi yn cael yr anrhydedd o'i chynrychioli. Carwn argraffu arnoch bwysigrwydd y ddyledswydd hon, oblegid y mae bywiogrwydd a gweithgarwch arwyr yr eglwysi uniongred yn cynwys perygl i'n heglwysi ni. Yr wyf yn gwybod am amryw o blant i rieni Undodaidd wedi cael eu hudo yn ddiweddar gan ryw gynlluniau dengar i ymadael a ffydd eu tadau. Mae yn ddyledswydd arbenig arnom ni yr adeg bresenol i ofalu am y bobl ieuainc, ac i'w haddysgu, fel y byddo iddynt ganfod gwerth rhyddid barn, a sylweddoli fod y grefydd sydd yn tarddu oddiar feddwl goleuedig yn rhagorach na'r

grefydd sydd yn gynwysedig mewn ffyddlondeb i ffurfiau allanol a seremoniau. Nid oes yn ein heglwysi ni y defodau rhwysgfawr, y gerddoriaeth ardderchog, a'r seremoniau difrifol sydd yn denu llawer o'r bobl ieuainc. Bydded i ni felly fod yn ofalus i geisio argraffu ar ein plant a'n pobl ieuainc fod yna bethau uwch na'r pethau allanol yma, ac fod crefydd oleuedig yn cynyrchu gwell cymeriadau na chrefydd y ffurfiau a'r defodau.

Ac yn awr wrth derfynu, yr wyf am eich sicrhau eto o'r hyfrydwch mawr wyf wedi brofi drwy fod yn alluog i dalu yr ymweliad hwn a chwi. Yn Undodwr gwresog a brwdfrydig fy hunan, yn hoff o'r enw yn ogystal ag o'r egwyddorion, yr wyf yn llawenhau yn mhob cyfleusdra i ddod yn fwy adnabyddus o'r rhai hyny sydd yn credu fel finnau mewn rhyddid barn. Dymunaf i chwi, fy mrodyr, yn weinidogion ac yn bobl, Dduw yn rhwydd yn eich llafur. Bydded i'ch ymdrechion ar ran Duw a dynoliaeth gael eu coroni a'r llwyddiant maent yn deilyngu.

ADGOF UWCH ANGHOF.

1747—ANNA SEWARD—1809.

Cyrhaeddodd y foneddiges hon enwogrwydd mawr yn ei dydd; ond rhyfedd cynted yr anghofir hi. Gelwid hi yn "Swan of Lichfield." Cyhoeddodd nofel—Louisa—yn 1782; ei Sonedau yn 1799; a'i bywgraffiad rhagorol o Dr. Erasmus Darwin, tadcu Francis Darwin, y gwr a roddes i'r iaith y gair Darwiniaeth. Y mae ei llythyrau yn llanw chwech o gyfrolau. Bu farw Mawrth 23, 1809.

JOSEPH HAYDN.

Ganwyd Ebrill 1, 1732; bu farw Mai 31, 1809.

Cerddor enwog ag y mae ei weithiau yn adnabyddus hyd heddyw; mab i weithiwr tlawd. Hyd nes yr oedd yn 18 oed actiodd fel chorister yn eglwys St. Stephan yn Vienna; y pryd hwnw torodd ei lais ac am beth amser bu'n enill bywioliaeth ansicr trwy chwareu'r crwth. Un hwyr pan yn chwareu darn o gerddoriaeth o'i waith ei hunan, clywodd cerddor o'r lle ef, yr hwn a darawyd a chymaint o syndod fel y ceisiodd ganddo gyfansoddi *opera*. Yr *opera* hwnw a'i dygodd i sylw Metastasio (1698-1792), a thrwy ei garedigrwydd ef y dygwyd ef at y cerddor Porpora (1686-1766). Daeth i Brydain yn 1790, ac yma y cyfansoddodd chwech o'i Ddeuddeg *Grand Symphon-*

ies ; yn 1794 yr oedd yma drachefn pan y cyfansoddodd y chwech eraill. Ar ei ddychweliad i Awstria cyfansoddodd ei *Oratorios*—y *Creation* a'r *Seasons*.

1609—BENJAMIN WHICHCOTE—1683.

Y "*Cambridge Platonist*," yr oedd ei ddylanwad yn fawr ar ei ysgolheigion yn y brifysgol yn Nghaergrawnt. Cynwys ei weithiau gyfrol o Bregethau, 1701-7 ; Diarhebion Moesol a Chrefyddol, 1703 ; yr oedd yn ffafryn gan Gwilym Marles, gweler ei erthygl yn *Yr Athraw*.

NODION Y MIS.

Dymunem alw sylw ein darllenwyr at y benod gyntaf o lyfr Dr. Sunderland ar y Beibl ymddengys yn y rhifyn hwn. Y mae y gwaith o'i droi i'r Gymraeg wedi ei ymddiried i'r llenor adnabyddus a'r brawd caredig, y Parch. J. Hathren Davies, ac ni chyll amcan y llyfr hwn ddim o'i werth mewn diwyg Gymreig. Mae yn mwriad y Gymdeithas i gyhoeddi yr holl lyfr drwy help Cymdeithas De-Ddwyrain Cymru a Chymdeithas Llundain, a gobeithiwn y gwelir ei gyhoeddi yn fuan. Y mae yn un o'r pethau goreu a ddarllenwyd genym erioed ar y pwnc.

Cynhaliwyd cyfarfodydd dair-blwyddol y Gynhadledd Genedlaethol yn Bolton gan ddechreu dydd Llun, Ebrill 19, a gorphen y dydd Gwener dilynol. Y mae Bolton yn ganolfan nythle o eglwysi Undodaidd, ac mewn canlyniad yr oedd y cyfarfodydd gyda'r rhai lluosocaf gynhaliwyd erioed. Y mae Cymry yn weinidogion yn llawer iawn o eglwysi y cylch, a llawenydd mawr oedd genym ddeall eu bod yn uchel eu parch ac yn fawr eu dylanwad, Y ddau anerchiad goreu gafwyd yno, yn ol barn Cymro, oedd un gan y Parch. J. M. Lloyd Thomas, brodor o Lanarth, a'r llall gan y Proffeswr Henry Jones o Glasgow, ac yr oedd cymeradwyaeth uchel y dorf, yn cadarnhau y syniad hwn. Gobeithiwn, os yn bosibl, i gyhoeddi un, neu efallai y ddau, yn yr YMOFYNYDD.

Y mae esgob Birmingham (Dr. Gore) yn penderfynu cadw i fyny ei enw fel dyn enwog. Ei orchymyn hynod diweddaf yw i'r offeiriaid gario allan y gwasanaeth yn eu llais naturiol. Paham y dywedwn "gorchymyn hynod," gellid meddwl mai mewn llais naturiol y

byddent bob amser yn darllen y gwasanaeth. Ond nid felly, y mae yna dôn neillduol yn perthyn i'r pwlpud, tôn a ystyrir yn fwy crefyddol na'r llais naturiol. Rhaid fod y darllenydd yn gyfarwydd ag ef. Onid e, sylwed y tro nesaf ar y gwahaniaeth yn llais yr offeiriad yn y pwlpud ac ar ben yr heol. Yr ydym yn cytuno a'r esgob, er y ceir y llais hynod weithiau yn mhwlpudau'r Anghydffurwyr. Onid y dôn oreu yw y *B natural.*

Yn ei lyfr—"*The New Theology, its Meaning and Value*"—y mae'r Parch. Frank Ballard, Wesleyad enwog, gyda lluaws o lythyrenau ar ol ei enw, yn cyfeirio at rai o'r hen ddaliadau ag y mae'r Dduwinyddiaeth Newydd wedi droi o'r neilltu, ac yn dywedyd,—Ni fu erioed yn wir, fod dyn yn cael ei achub neu ei golli yn ngolwg Duw oblegid ei opiniynau; ni fu erioed yn wir fod y byd wedi ei greu mewn chwe diwrnod o bedair awr ar hugain yr un, a bod holl ddibenion a gwerth y Beibl yn dibynu ar yr haeriad; ni fu erioed yn wir nad yw y ddyn-oliaeth ond "abo moesol" llygredig, heb amgyffrediad, na dymuniad, na bwriad ond sydd ddrwg; ni fu erioed yn wir mai cyfran fechan o ddynoliaeth sydd wedi ei hethol i iachawdwriaeth, fod y mwyafrif mawr trwy arfaeth dragwyddol wedi eu tynghedu i ddamnedigaeth. "Dysgid y pethau hyn gynt," medd Mr. Ballard, "ond ni ddysgir hwy heddyw oddigerth mewn ambell fan yn Scotland a Chymru," Sylwer—Cymru uchelfreintiog! Ond beth dâl siarad. Y mae argraffiad newydd o Gyffes Ffydd Charles, Trefecca, wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, a hyny o dan sel ac awdurdod enwad parchus y Methodistiaid, a cheir ynddo y pynciau hyn wedi eu gosod allan yn eu holl hagrwch noeth!

Yn ddiweddar bu y Parch. Arthur J. Waldron, Ficer Brixton, yn siarad mewn capel Ymneillduol, Whitfield Tabernacl, Llundain. Creodd yr ymweliad hwn gryn ddyddordeb oherwydd fod Esgob Gore wedi gwahardd Canon Henley Henson i siarad ar achlysur cyffelyb. Ond yn unol a'i wroldeb myn'd a siarad wnaeth y Canon er hyny. Dywedai Mr. Waldron, gan nad i ba enwad y perthynai dyn, yr oedd yn dod yn amlycach bob dydd, mai'r frwydr fwyaf oedd i'w hymladd, nid rhwng eglwysi, ond yn erbyn anffyddiaeth a difaterwch. Yr oedd haner eglwysi Llundain yn weigion. Ar ol ein holl gredoau a'n gwahaniaethau yr oedd yn rhaid myned yn ol at y maen prawf eto. Derbyniodd ef yr wythnos ddiweddaf lythyr yn ei ddamnio am na chredai fod dynion yn mynd i uffern "byth byth-oedd, Amen." Derbynia yn gyson grug o lythyrau oddiwrth bobl gredent ei fod ef yn myned i uffern, ond nad oeddynt hwy eu hunain. Symud mae'r byd er hyny.

TARDDIAD A THYFIANT Y BEIBL.

(Y Parch. J. T. Sunderland).

Penod I.

Safle'r Beibl yn mhlith Llyfrau Cysegredig y Byd.

Y Beibl fel Llyfr Cysegredig. I'r gofyniad, Pa beth yw ein Beibl? dyry ysgolheigiaeth, yn mhlith atebion eraill, yr ateb cynwysfawr hwn: Un yw o lyfrau neu o Feiblau mawrion cysegredig dynolryw. Barn gyffredinol ysgolheigion o'r wybodaeth eangaf yw, fod y Beibl, a'i gymeryd trwyddo, yn tra rhagori ar bob un arall. Ond er cymaint y rhagora ar lyfrau eraill, mae yn un o'r gyfres a gynwysa yr holl lyfrau cysegredig. Pa rai yw Beiblau mawrion eraill dynolryw? Y mwyaf pwysig ydynt:

(1) Veda y Brahmaniaid.

(2) Tripitaka y Bwdiaid.

(3) Avesta neu Zend-Avesta y Persiaid.

(4) Y Pum' Brenin, neu Lyfrau Cysegredig Confucius.

(5) Y Tao-te-King, neu Lyfrau Cysegredig Laotse.

(6) Koran Mohammed.

Mae wedi bod, ac y mae eto lyfrau cysegredig eraill yn y byd heblaw y rhai a nodwyd; ond y rhai hyn, yn fwyaf tebygol, yw y rhai pwysicaf. Heb son am y lenyddiaeth gysegredig llai ei nod sydd ar glawr o hyd, megys yr Upanishad a Deddfau Manu yn mhlith yr Hindwiaid, gwyddis fod gan yr hen Aifftiaid gyfrolau cysegredig, ac yr ydys wedi dyfod o hyd i ran helaeth, os nid yr oll o'r cyfrolau hyn, sef "Llyfr y Meirw." Yn Mabylonia ac Assyria, hefyd, yr ydys wedi darganfod rhanau pwysig o'r hyn ellir alw yn lenyddiaeth gysegredig. Ni adawodd y Groegiaid ar eu hol ddim a ellir yn briodol ei alw yn lyfr cysegredig. Arwr-gerddi mawrion cenedl yw Cerddi Homer, ond nid ydynt erioed wedi derbyn y "gydnabyddiaeth gyffredinol hono," ys dywed Max Müller, "a rydd iddynt gymeriad cysegredig neu ganonaidd." Gan nad beth oedd traddodiadau cysegredig y Celtiaid, yr Ellmyniaid a'r Slafiaid parthed eu duwiau a'u harwyr, a drosglwyddwyd iddynt o enau i enau, mae yr oll wedi ei golli heb obaith ei adferu byth mwy. Rhanau o'r Eddas yw yr unig rai a rydd i ni ryw syniad o'r hyn oedd barddoniaeth grefyddol ac arwrol y Scandinafiaid. Gyda gradd helaeth o gywirdeb, gan hyny, y medraf ddweyd mai llyfrau neu Feiblau pwysicaf y byd yw—Beibl y Brahmin, Beibl y Bwdiad, Beibl y Persiad neu Feibl Zoroaster, dau Feibl China, Beibl Mohammed; ac yn ychwanegol atynt, Beibl yr Iddew (ein Hen Destament ni), a Beibl y Cristion (ein Hen Destament a'n Testament Newydd).

Daw llyfrau cysegredig neu Feiblau i fod yn naturiol. Cynyrch angenrheidiol ac anocheladwy natur grefyddol dyn ydynt. Gellir eu rhanu i ddau ddosbarth. Cynwysa y dosbarth blaenaf y llyfrau cysegredig hyny a ymgodant o fywyd cyffredinol pobl, llyfrau y mae cryn ansicrwydd gyda golwg ar eu hawduraeth, a llyfrau y mae haen o draddodiad a chwedloniaeth wrth eu gwraidd. Cynwysa yr ail ddosbarth y llyfrau hyny a ddeilliant yn uniongyrchol oddiwrth arweinydd mawr crefyddol, neu broffwyd, a fynychaf o fewn terfynau hanes.

(1.) Y llyfrau cysegredig a ymdyfant allan o fywyd cyffredin pobl.—

Yn hanes foreu pobl, cyn fod ganddynt lenyddiaeth, ac hyd yn nod cyn eu bod yn medru ysgrifenu, ceir bob amser nifer fawr o chwedlau ac ystraeon am ryfeloedd, galanas, digwyddiadau hynod a dirgelaidd (megys llifogydd, daeargrynfäau, cread tybiedig y byd), am hynafiaid, brenhinoedd, gwroniaid, personau a dybir eu bod mewn cyfathrach agos a'r duwiau. Yr hynotaf o'r ystraeon hyn a adroddir gan deulu i deulu, llwyth i lwyth, cenhedlaeth i genhedlaeth, nes y daw hi yn nhreigliad yr oesau, yn etifeddiaeth yr holl hiliogaeth. Megys y dyfeisir offerynau cerdd anghelfydd, ac megys y daw pobl yn alluog i chwareu ac i ganu, felly y tuedda y chwedlau a'r ystraeon hyn i gymeryd arnynt ffurfiau materol.

Pan y cyrhaedda pobl, o'r diwedd, y cyflwr hwnw mewn gwareiddiad i fedru y gelfyddyd o ysgrifenu—y peth cyntaf a ysgrifenant yw yr emynau, y baledi, a'r chwedleuon hyn—a chyda hwynt, ffurf-eiriau syml cyfaredd, cyfarwyddiadau i ymarfer â chyfaredd, ffurfiau o weddiau i'r duwiau, rheolau ar gyfer defodau crefyddol,—a deuant i gyd i fodolaeth yn naturiol, yn raddol ac yn gynar yn hanes pob cenedl. Ac am fod y cyfryw bethau wedi disgyn o hynafiaid parchedig, ac fod goleuni disglaer o'r gorphenol pell wedi ymgrynhoi o amgylch iddynt, yn naturiol ddigon edrychir arnynt fel rhai yn meddu ar fesur helaeth o gysegredigrwydd. Y nhw yw hedyn y llyfr cysegredig neu y Beibl a fydd. Fel yr â yr oesoedd rhag eu blaen, daw ysgrifeniadau eraill i fod, rhai o honynt o angenrheidrwydd yn grefyddol, neu o duedd grefyddol, ac eraill o duedd foesol. Trwy oruchwyliaeth o ddetholiad naturiol, mae y cyfryw o honynt a ymagweddant oreu â chwaeth y werin, neu a gordiant oreu a theimlad crefyddol y werin, yn cael byw, a chynyddant o hyd mewn anrhydedd; tra yr ymsudda y lleill i ddinodedd, neu ânt o'r golwg yn gyfangwbl. Daw y cyfryw sydd wedi eu cadw fel hyn ar glawr ac wedi eu dyrchafu i anrhydedd, yn wrthddrychau parch gydag amser, ac yn raddol ychwanegir hwynt at y lenyddiaeth gysegredig oedd yn bodoli eisoes; dyma'r modd y tyfa'r Beibl. Gall yr ychwanegiadau hyn fod yn ychydig neu yn llawer, yn ol amgylchiadau. Ond fe ddaw adeg o'r diwedd, pan y tynir llinell, ac y selir y llyfr cysegredig, mewn canlyniad i ryw alanas yn hanes cenedl, neu i ryw farweidd-dra yn y bywyd deallol a chrefyddol, neu mewn canlyniad i ryw achos arall. Unrhyw beth a ysgrifenwyd ar ryw adeg yr ochr hon i'r llinell nid yw yn wir Feibl. Dyna yn fyr yw hanes dechreuad un dosbarth o lyfrau cysegredig neu o Feiblau. Llyfr amlwg yn y dosbarth hwn yw y Vedas, bron yr oll o lenyddiaeth gysegredig yr Hindwaid, a'n Hen Destament ninau.

(2.) Llyfrau Cysegredig a ddechreuant mewn dyn.—Cychwyna yr ail ddosbarth o lyfrau cysegredig mewn *person*. Ymddengys athraw crefyddol mawr yn mhlith gwerin, gwna argraff ddofn, rhydd gychwyniad i symudiad crefyddol newydd, neu os gwell, cychwyna grefydd newydd. Cynyrch naturiol y cyfan hyn yw Beibl newydd. Mae disgyblion yr athraw crefyddol, am gadw hanes ei fywyd ac am wneud cofnodiad o'i addysgiadau. Os ysgrifena efe ei hun lyfr neu gyfres o lyfrau, gwna y cyfryw lyfr Feibl, neu o'r hyn lleiaf, ran bwysicaf o'r Beibl. Ond os na edy efe ar ei ol ddim a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun, yn naturiol ddigon ysgrifena ei ganlynwyr a'i edmygwyr goreu y medrant, gofnodiad o'i eiriau a'i weithredoedd, a chadwant ef, a daw yn Feibl, neu yn gychwynfa Beibl. Yn mhlith y Beiblau ydynt wedi cychwyn yn y modd hwn mewn dyn, gallwn enwi dau Feibl China, a darddasant oddiwrth Confucius a Lao-tse; Beibl y Bwdiaid a gododd oddiwrth Sakya-muni, neu Bwda; y Koran, a ddaeth oddiwrth Mahomed; a'r Testament Newydd, sydd yn ffrwyth bywyd Iesu.

Gyda golwg ar Feiblau mawrion y byd, nad yn mha un o'r ffyrdd hyn y

cawsant eu dechreuad, gellir crybwyll amryw bethau.

Amser a sancteiddia. Mae y rhan amlaf o'r llyfrau mawrion cysegredig, cyn belled ag y gallwn ddeall, wedi cyrhaedd eu safle arbenig o gysegredigrwydd trwy henaint. Ceir yr unig eithriadau yn yr ail ddosbarth—yn y llyfrau sydd yn cychwyn mewn athraw crefyddol mawr. Pa un a oedd y llyfrau hyn yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr ar y cyntaf, neu nad oeddynt; ond, fel rheol, nid oedd y syniad o'u gosod gyda'u gilydd fel llyfrau cysegredig, wedi ymgynyg i neb ar y cyntaf,—yn raddol ac mewn cyfnod diweddarach yr ymgododd y meddyldrych hwnw. Delent yn gysegredig gydag henaint. Yn ol fel yr oedd pobl yn diflanu ac ymbellhau oddiwrth amserau ac amgylchiadau dechreuad y llyfrau, delent yn raddol i feddwl am y dechreuad hwnw fel un yn meddu ar elfen oruwchnaturiol. Y parch a ddechreuasai ymgrynhoi o amgylch iddynt oedd y gogoniant a enillir gan henaint.

Bron yr un fath yw tueddfryd y meddwl dynol bob amser ac yn mhob man; tybia pob un mai blynyddau o aur yw blynyddau ei blentyndod; tybia pob cenedl a phob to mai oes aur yw oes ei phlentyndod. Mae y nifer mwyaf o fobl y gorphenol naill ai wedi addoli eu hynafiaid, neu wedi ystyried eu hynafiaid mewn rhyw ffordd yn uwch na dynion. Tuedd gyson sefydliadau neu arferion, neu draddodiadau, neu ysgrifeniadau, neu etifeddiaethau o unrhyw fath ydynt wedi dyfod i lawr trwy lawer cenedlaeth, yw dyfod yn gysegredig yn ngolwg y sawl ydynt wedi dyfod i feddiant o honynt. Mae hyn yn neillduol wir am y ffurfiau mwy sefydlog a llai blaenfynedol o wareiddiad a ffynant yn y dwyrain, lle mae Beiblau mawrion y byd wedi cychwyn. Prin yr ystyrid un o'r Beiblau hyn—yn wir, prin yr ystyrid un o'r ysgrifeniadau neu'r darnau a wnaent i fynu'r Beibl, yn gysegredig, yn ngwir ystyr y gair, pan y daethant gyntaf i fodolaeth. Addolai'r plant lle y gwerthfawrogai'r tadau, tra i blant y plant yr oedd yr un peth yn wyrthiol ac yn ddwyfol.

Dyddorol ac addysgiadol fyddai cymeryd fynu, yn eu tro, amryw o'r llyfrau mawrion cysegredig a nodwyd, ac olrhain yn fanwl y camrau, fel y mae ysgolheigiaeth ddiweddar wedi cael gafael ynddynt, trwy ba rai y mae'r ysgrifeniadau hyn wedi newid eu safle o fod yn ysgrifeniadau da a gwerthfawr i fod yn lyfrau cysegredig. Ond ni chaniata ein gofod i ni wneud hyn gyda golwg ar un o honynt oddigerth ein Beibl ni. Digon yw dweyd fod y cyfnewidiad hwn mewn cysylltiad â rhai o'r llyfrau wedi bod yn araf iawn, ac wedi cymeryd canoedd o flynyddau. Parthed i'r Vedas a'r Zend-Avesta, ymddengys iddo gymeryd canoedd *lawer* o flynyddau. Ac y mae yr un peth yn wir am o leiaf rai rhanau o'n Beibl ni.

Mewn perthynas i'n Hen Destament ni, cysylltid y syniad o gysegredigrwydd gyntaf â'r Pentateuch, neu "Bum Llyfr Moses," neu "Y Gyfraith," fel ei gelwid. Ac ymddengys mai rhywbeth ysgafn ac ansylweddol iawn am hir amser oedd cysegredigrwydd hyd yn nod y rhan hono o'r Beibl. Y rhan nesaf o'r Hen Destament i gael ei ystyried yn gysegredig oedd y rhan a gyfenwid gan yr Iuddewon yn "Broffwydi," tra na ddaeth y rhan a adnabyddid fel "Yr Ysgrifeniadau," yr hon a gynwysai y Salmau a'r Diarebion a Job,—llyfrau a gyfrifir yn gyffredinol heddyw yn fwy eu parch nag unrhyw lyfr arall yn yr Hen Destament, i gael eu hystyried yn wirioneddol gysegredig fawr cyn amser Crist. Yn wir, yn amser Crist tybid fod yr oll o'r rhan hon o'r Hen Destament yn llawer llai ei awdurdod na'r rhelyw o hono.

A dyfod at y Testament Newydd, daeth rhai o'r Epistolau i gael eu hystyried yn gysegredig, neu yn lyfrau o awdurdod, lawer yn gynarach na'r Efengylau neu'r Actau. Ond am amser maith—feallai am ddwy ganrif—ni feddyliodd yr Eglwys Gristionogol fod un o ysgrifeniadau y Testament Newydd yn haeddu sefyll ar yr

un safon uchel a'r Hen Destament. Ac aeth o leiaf dair neu bedair canrif heibio, cyn y daethpwyd i'r penderfyniad rhanol, pa rai o'r nifer mawr o'r ysgrifeniadau a gynyrchwyd o fewn canrif neu ddwy ar ol marwolaeth Iesu, a gawsent eu gosod yn mhlith llyfrau y Testament Newydd —hyny yw, pa lyfrau a ystyrid fel rhai yn meddu ar awdurdod ddwyfol, a pha lyfrau a gawsent eu gosod o'r neilldu. Ond cawn sylwi eto yn nes yn mlaen ar y modd y cafodd Canon ein Hysgrythyr ni ei ffurfio. (Gwel Pen. xvii. a xviii.).

EFAIL Y GOF.

Dywed yr hen lyfr "mai arall yw gogoniant yr haul, arall yw gogoniant y lloer, ac arall yw gogoniant y ser." Mae i bethau eu gogoniant, a meddyliaf nad yw yr efail heb ei gogoniant, a thrueni na fuasai yr adnod yn dyweyd "ac arall yw gogoniant efail y gof."

Yn ddiweddar bum yn darllen hanes Mr. D. Lloyd-George, A.S., mewn llyfryn swllt a dywedai yr awdwr fod gweithdŷ Richard Lloyd —ewythr i Lloyd-George, brawd ei fam—yn rhyw fath o

Dy Seiet i'r Gymdogaeth

—mai yno yr ymdyrai y bobl i ymdrin â gwleidyddiaeth, duwinyddiaeth, a phob pwnc o fewn cylch eu gwybodaeth.

O bosibl mai gweithdŷ y crydd yw y tŷ seiet a'r senedd yn y Gogledd, ond yn Sir Aberteifi perthyn y gogoniant hwnw i'r efail. Yn yr efail y clywir dynion yn myn'd yn hyawdl mewn dadl,—yno y bydd materion yn cael eu trin a chwestiynau dyrus yn cael eu penderfynu a hyny yn llawer cyflymach nag y gwneir yn y Senedd neu yn nghyngor yr Eglwysi Rhyddion.

'Rwy'n meddwl y buaswn wedi rhoi fyny bod yn ôf er ys llawer dydd onibae am yr ymgomiau hyn ; os yw gwaith y gôf yn galed a'r hûr yn fach mae yr ymddiddanion hyn megys yn gwneud i fyny am yr oll. Ychydig iawn o ysgol gês i pan yn ieuanc ; dim ond rhyw bedwar chwarter yn y gauaf am yn ail a bugeilio, a chynted y byddwn yn dechreu cael gafael yn mhen y llinyn yn yr ysgol 'r oedd amser bugeilio'n dod, ac yna ai braidd yr oll ag oeddwn wedi ddysgu yn anghof. Ond yr wyf wedi cael cymaint o ysgol yn yr efail,—wedi gwrando ar gymaint o ddoctoriaid mewn duwinyddiaeth a gwleidyddiaeth fel na wnawn dynu fy het i neb yn mhlith gweithwyr y wlad yma ar y meusydd yna.

Un gogoniant a berthyn i'r efail yw amrywiaeth—amrywiaeth syniadau—amrywiaeth esbonwyr a doctoriaid fel rhwng y cyfan mae cyfle gan y gôf i ddod yn

Ddyn Goleuedig a Gwybodus.

Synech pe baech yn gwybod mor wahanol i'w gilydd yw y dynion ag sy'n troi fewn i'r efail yn hyd blwyddyn. Undodwr a Rhyddfrydwr wyf fi, ond yma daw Eglwyswyr, Calfiniaid, Annibynwyr a Cheidwadwyr, ac weithiau mae yma elfenau heblaw y tân yn gwneud yr efail yn lle twym a gwresog.

Pe gwnai Undodiaid a Rhyddfrydwyr y Sir yma roi comisiwn i mi am gonverts a math o dâl cenadol am gyhoeddi eu syniadau byddwn yn alluog i roi gymaint naill ochr fel

na byddai eisiau i mi flino y llywodraeth am flwydd-dâl yn fy henaint.

Ond gadewch i mi gael adrodd tipyn o hanes yr efail, ei phobl a'i phethau. Y boreu yma er engraifft daeth dyn—Undodwr—i'r efail gan alw'r "gof"—mae gen i enw bedydd fel pob un arall ond "gof" mae'r ymwelwyr â'r efail yn fy ngalw a buaswn wedi anghofio fy enw er's llawer dydd onibae fy mod yn clywed fy ngwraig yn ei swnio weithiau. "Wel?" meddwn i. Meddai yntau, "os gen ti amser i roi pâr o bedolau dan y creadur yma?" "O, oes," meddwn inau, a chyda'r gair dyma'r llaw dde yn dal darn o haiarn yn y tân a'r llaw chwith yn chwareu corn yr hen fegin, a'r mwg yn dechreu ymdorchu at nen y tŷ. "Wel, gof," meddai'r cymydog, "mi dy welais

Yn y Cyrddau yn Pantdefaid

pwy ddydd—beth ot ti'n feddwl am danynt?" "Cyrddau ardderchog yn ol fy marn i," oedd yr ateb, "mi gês fy moddloni yn fawr yn yr oll a ddywedwyd yno—own ni'n meddwl fod y bobl ddieithr yn siarad yn syml a phwrpasol iawn."

"Mae'n dda gen i," meddai'r cymydog, dy fod ti wedi wedi eu mwynhau, ac mae'n ddrwg genyf na allaf ddweyd yr un peth,—oedd gormod o Saesneg yno i fi. Dim ond ambell i air hwnt ac yma o'wn i'n ddeall, ond dywed pwy oedd y bobl ddieithr hyny a beth oedd eu hamcan wrth ddod lawr i'r cyrddau chwarter?"

"Wel, i ti gael deall yn iawn," oedd yr ateb, "mae yna gymdeithas fawr Undodaidd i'w chael ag a elwir 'Cymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor,' pwyllgor yr hon sy'n cyfarfod amryw weithiau yn y flwyddyn yn Essex Hall, Llundain. Sefydlwyd y gymdeithas yn 1825, ac ar hyd y blynyddau mae wedi gwneud gwaith rhagorol.

Gellir dweyd fod ganddi dri amcan (1) Cyhoeddi llyfrau a thraethodau er egluro safle a syniadau Undodiaid. (2) Rhoi cynorthwy arianol i eglwysi gweinion perthynol i'r enwad. (3) Gofalu am hawliau gwladol yr enwad. Mae maes ei chenadaeth yn eang a'r gwaith mae'n gyflawni'n fawr. Er engraifft yn ystod y flwyddyn ddiweddaf cynorthwyodd mewn ystyr arianol rhyw gant o eglwysi. Gwariodd £1,066 mewn danfon pedair Van ar hyd Cymru, Lloegr, a'r Alban i gyhoeddi Undodiaeth yn yr awyr agored. Cyhoeddodd 13,600 o gopiau o lyfrau newyddion a 459,920 o draethodau—yr oll wedi eu hysgrifenu gan Undodiaid. Rhoddodd lyfrau o waith Undodiaid i gymaint a chant o weinidogion perthynol i'r eglwysi iawnffyddol mewn atebiad i'w hapêl am danynt. Mewn gair mae ar ei goreu yn ceisio gwasgar y syniadau ag ydym ni fel Undodiaid yn goleddu.

Cynrychiolwyr y gymdeithas ardderchog yna oedd y bobl ddieithr. Mr. Bowie, yr hwn draddododd yr araeth rymus hono ar "Undodiaid a'r Cwestiwn Addysg" yw Ysgrifenydd y gymdeithas, a dywedir ei fod yn weithiwr llafurus ac ymroddgar. Mr. Harrison yw ei Llywydd am y flwyddyn, ac mae y lleill yn cael eu danfon yn aml i gyfarfodydd o'r fath fel siaradwyr i gynrychioli y gymdeithas.

Mae Undodiaid Cymru yn ddyledus iawn i'r gymdeithas am gynorthwy estynwyd i ni ar hyd y blynyddoedd. Derbyniodd cynulleidfa Brondeifi £125 oddiwrthi at adeiladu ei chapel newydd. Derbyniodd Capelyfadfa £75, a Chapelycwm £50 at eu capelau hwythau. Yr oedd yn dda gan fy nghalon i gael gweled a chlywed cynrychiolwyr o'r gymdeithas ac i gael cyfle i ddangos ein teimladau da tuag ati, a'n diolchgarwch iddi am ei charedigrwydd.

Peth arall mae'n werth i ni gael ein hadgofio ar droion mai

Nid yn Sir Abeeteifi yn unig

y mae Undodiaid i'w cael. Ein tuedd ydyw meddwl mai rhyw nifer fechan yn y sir hon yn unig sydd o Undodiaid ac o eglwysi Undodaidd,

a mynd yn llwfr mewn canlyniad.

Mae ymweliadau o'r fath yna yn codi tipyn ar ein hysbryd ac yn dwyn i gof o'r newydd fod yna Undodiaid ac eglwysi Undodaidd heblaw yn y cylch hwn ac fod yna ymdrechion beiddgar yn cael eu gwneud i ddwyn ein syniadau gerbron y wlad a'r gwledydd."

Atebodd y cymydog, "ond y pwnc yw, pwy eisiau mynd i drafferth a chost yn ngylch y syniadau sydd? I'r un man mae pawb am fyn'd gan nad i ba enwad y perthynant iddo—'dyw hi fawr wahaniaeth beth yw syniadau dyn a pheth mae yn gredu—byw yw'r pwnc."

Atebais inau, "mae dy osodiad yn arwain at bwnc eang a phwysig—pwnc, yn ol fy meddwl i sydd a llawer iawn o anealltwriaeth yn ei gylch. Ond gâd hi yn y fan hon yn awr, a thro nesaf y deui i fewn cawn drin y mater yn mhellach. Dydd da."

JACKI'R GOF.

Y PROGRESSIVE LEAGUES.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd llwyddianus o dan nawdd Progressive Leagues Deheudir Cymru yn Mhontypridd ar y 5ed a'r 6ed o fis Ebrill. Pregethwyd y bregeth ar y nos Lun gan y Parch. R. J. Campbell yn nghapel yr Annibynwyr yn Ferndale. Yr oedd yr adeilad yn orlawn, a gallem feddwl fod y pregethwr wedi gwneud argraff arosol ar feddyliau'r gwrandawyr. Tebyg fod yno amryw wedi dyfod i edrych am wallau ond hyd yn hyn nid wyf wedi clywed fod yr un o honynt wedi llwyddo. Tueddid un i gredu ar brydiau fod rhai o'r brawddegau braidd yn aneglur a phriodolwn hyn yn rhanol i'r ffaith fod Mr. Campbell yn cael ei orweithio. Tair pregeth yn wythnosol a nifer cyffelyb neu ragor o gyhoeddiadau cyhoeddus ereill—rhaid fod y corff yn dioddef ac i fesur y meddwl a'r ysbryd hefyd.

Am naw o'r gloch boreu dydd Mawrth cynhaliwyd cyfarfod defosiynol yn Neuadd Newydd y Dref, Pontypridd. Llywyddwyd ar yr achlysur hwn gan y Parch. J. Park Davies, gweinidog yr Undodiaid. Er fod yr awr yn gynar yr oedd nifer dda wedi ymgynull ac nid ychydig o honynt yn barod i gymeryd rhan wrth alwad. Yn ganlynol i hyn cyfarfu aelodau'r gymdeithas i drin gwahanol faterion yn nglyn â'r symudiad. Yr oedd Mr. Campbell, bellach, wedi gwneud ei ymddangosiad, a chymerodd ei le yn y gadair.

Dywedodd yr ysgrifenydd, Mr. W. T. Owen, yn ei adroddiad fod yr achos ar gynydd yn Nghymru a'r rhagolygon yn wir addawol. Y prif gwestiwn mewn llaw oedd, Perthynas y gymdeithas i bleidiau politicaidd. Pasiwyd yn unfrydol ei bod i barhau i fod yn hollol anibynol, ac yn ngeiriau Mrs. Despard i gefnogi mesurau yn hytrach na phartiau. Ar gynygiad y Parch. George Neighbour yn cael ei eilio gan y Parch. F. A. Swan, mabwysiadwyd heb un nacad benderfyniad yn ymddwyn â "Unemployment" ac un arall o barthed "Pleidlais i'r menywod." Siaradwyd ar yr olaf gan Mrs. Despard a'r Parch. Eric Davies. Yn y prydnawn daeth torf yn nghyd i wrandaw ar gyfres o anerchiadau gan wahanol siaradwyr. Y cadeirydd oedd Mr. J. Allanson Picton, Y.H., M.A., Penmaenmawr. Llefarodd am dros awr o amser ar "Gynydd mewn Duwinyddiaeth." Yn nesaf cafwyd

anerchiad dyddorol ac addysgiadol gan y Parch. E. W. Lewis, M.A., B.D., Clapham, ar "Mewnfodaeth Duw." Yr oedd yn amser bellach i dynu at y terfyn a methodd y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., wneud rhagor na rhoddi braslun byr o'i anerchiad ar "Ystyr a gwerth astudiaeth y gwahanol grefyddau." Yn ddiweddaf oll cafwyd papyr meistrolgar gan y Parch. J. Morgan Jones, M.A., Aberdar, ar yr "Ysgol Sul ar linellau'r meddwl diweddar." Dioddefodd yntau hefyd o herwydd diffyg amser ond da yw deall y gellir ei ddarllen yn awr yn nhudalenau y *Christian Commonwealth*. Yr oedd y prif gyfarfod i gymeryd lle yn yr hwyr. Yr oedd y neuadd—y mwyaf yn y lle—yn orlawn amser maith cyn yr adeg i gychwyn. Mae'n amheus a welwyd cynulliad cyffelyb yn Nghymru o'r blaen a chredaf y buasai y fath beth yn anmhosibl tuag ugain mlynedd yn ol. Dwy fil o bersonau wedi dyfod at eu gilydd i glywed neges ag y dywedir bob drygair bron am dano! ac yn fwy na'r cyfan yr oeddynt wedi dyfod i wrandaw, ac mi gredaf lawer o honynt, i gymeryd eu hargyhoeddi os gwnai y genadwri apelio at eu meddyliau a'u serchiadau. Dywedodd hen gerddor o brofiad helaeth wrthyf hefyd fod y canu y goreu bron oedd wedi glywed mewn un cyfarfod erioed, a hyny cofier, yn ngwyneb y ffaith fod y mwyafrif o'r emynau wedi eu dewis allan o lyfr yr Undodiaid! Gellir cymeryd y cyfarfod hwn yn ddiau fel un o arwyddion mwyaf tanbaid yr amserau. Dywedodd Syr Richard Stapley, fel cadeirydd, ychydig o eiriau yn fyr ac i bwrpas. Y prif siaradwyr oeddynt Countess Russell, R.J.Campbell a T.Rhondda Williams. Yr oedd y tri ar eu goreu a gadawsant argraff ryfeddol ar bawb oedd yn bresenol. Er yr holl swyn berthynai i bersonoliaeth y ddau flaenaf nid oedd eisieu i'r Cymro dynu ei het i'r naill na'r llall o honynt. Clywais lawer yn dweyd yn ddiweddarach na chlywsant erioed o'r blaen y fath ddawn ar enau bod dynol. Nid oes angen i grefydd resymol fod yn sych nac yn ddiflas. Dywedodd Mr. Campbell ei fod yn teimlo wrth gychwyn o Lundain yn wan a gwelw, ond fod y cyfarfodydd rhyfeddol yn Nghymru wedi ei adferyd i nerth a iechyd. Yr oedd ei olwg hefyd yn tystiolaethu i wirionedd y gosodiad. Nid oes dim all fod yn fwy boddhaus i ddiwygiwr na gweled yr had mae yn wasgar yn gwreiddio yn mynwesau y lluoedd. Bydd gwaith meithrin eto cyn gwelir y ffrwyth yn ei ogoniant a'i lawnder, ond mwynhad nid bychan yw gweled arwyddion am gnwd toreithiog. Mae y llwyddiant â pha un y coronwyd ein hymdrechion y tro yma yn ernes o'r llanw sydd i ddyfod a hyny heb fod yn faith.

PROGRESSIVE.

TU HWNT I'R LLEN.

IV.

Yn awr gadewch i ni ystyried yn y modd mwyaf rhesymol a difrifol y *ffeithiau* a gofnodwyd yn yr erthygl olaf. Y mae tair ffordd o edrych arnynt—

1. Fel anwireddau noethion.
2. Fel gwirioneddau hollol.
3. Fel yn rhanol wir, ac yn rhanol

anwireddus. Wrth gwrs, rhaid cofio y gall hanes fod yn anwireddus heb fod yn fwriadol felly. Yn wir, darllener hanes unrhyw ddigwyddiad a gofnodwyd gan ddau ysgrifenydd gwahanol, ac anaml y ceir y ddau dyst yn cytuno ar holl fanylion yr amgylchiad. *To err is human*—mae'r calla'n colli weithiau.

Yn awr, a ydyw yn rhesymol haeru fod yna fil o dystion yn ysgrifenu anwireddau noethion at ddyn o safle Camille Flammarion? Ateba pob bod rhesymol ar unwaith fod hyny yn beth anhebygol iawn. Felly rhaid peidio cymeryd y ffordd gyntaf. Y mae bodolaeth cymaint gau-dystion yn groes i brofiad pob un o honom. O leiaf, y mae yn groes i brofiad yr ysgrifenydd. Nid yw y celwyddog fyth yn llunio anwireddau noethion; y mae yn eu dilladu a gwisg deneu o wirionedd cyn y medr dwyllo neb ond ffyliaid. Ac y mae'r celwyddog yn rhy gall i geisio ffyliaid yn ysglyfaeth. Twyllo'r doeth yw ei uchelgais fynychaf.

Eto, gellir edrych ar yr adroddiadau am freuddwydion a osodwyd o flaen y darllenydd yn y benod olaf, fel gwirioneddau di-droi'n-ol. Y mae'r modd hwn o drin yr hyn a a elwir yn ffeithiau yn hollol annoeth. Nid yw'r Gwyddonwr yn credu dim hyd nes ei profir hyd y carn. Ac wedi profi ei ffeithiau ffurfia ddamcaniaeth i'w hegluro. Er engraifft, dengys *statistics* y rhai sy'n astudio'r tywydd ei bod yn gwlawio yn drymach mewn rhai mannau na'u gilydd. Y mae mwy o wlaw yn Ngogledd Lloegr, yn nghymdogaeth y Wyddfa, o gylch Bannau Brycheiniog, ac yn y blaen, nag sydd yn ngwastadeddau Cymru a Lloegr, neu ar lannau'r môr. Wrth gwrs, gellir dweyd mai digwyddiad yw ei bod yn bwrw mwy o wlaw yn Mynydd Islwyn nag yn Nghasnewydd, ond y mae'n ddigwyddiad mor aml nes ein gyru i gredu fod yna ryw *achos* iddo. Ac y mae astudwyr y tywydd yn egluro'r ffeithiau hyn drwy ddweyd fod y mynyddau yn oeri'r awyr, a thrwy hyny yn troi yr ager sydd yn yr wybren yn ddwfr. Felly, ceir gwlaw bob amser mewn mannau mynyddig yn fwy nag mewn dyffrynoedd. Ond sefydlu'r ffeithiau yw'r amcan cyntaf. Y mae ffeithiau ynglyn a'r tywydd yn agored i bawb i sylwi arnynt. Felly, 'does fawr o ddadl yn eu cylch. Pan ddelir i drin breuddwydion a gweledigaethau, gwaith anodd dros ben yw dyfod o hyd i'r hyn sydd o wirionedd sylweddol yn yr adroddiadau am danynt. Felly, rhaid edrych ar yr hanesion hyn fel yn

RHANOL WIR,

gydag ychwanegiadau neu ddiffygion, bwriadol neu anfwriadol, yn perthyn iddynt.

A chyfaddef fod peth gwirionedd yn yr hanesion, y cwestiwn nesaf ydyw, faint o'r gwirionedd hwnw a ellir esbonio heb gymeryd yn ganiataol unrhyw achosion ond y rhai a elwir yn naturiol. Gawn ni ddefnyddio'r gair *hwnt-anianol* am achosion o'r fath nas gellir eu dosbarthu gyda'r achosion naturiol hyn? A'r peth ydym am ofyn yw, a oes yna rywbeth hwnt-anianol yn y breuddwydion a gofnodasom, h.y., a ellir eu hesponio drwy egwyddorion cyffredin mater a meddwl, sef yr egwyddorion hyny y tybiwn yn gyffredin eu bod yn hysbys i ni? Cymerwn freuddwyd yr ysgrifenydd ei hun fel engraifft. Chwi gofiwch iddo freuddwydio un nos Sadwrn fod hen gyfeilles iddo wedi marw, ac iddo glywed gan ei weinidog drannoeth fod hyny wedi cymeryd lle. Yr wyf wedi breuddwydio lawer o weithiau fod cyfeillion a pherthnasau i mi wedi marw, ond, diolch i'r nefoedd, y maent yn fyw hyd yr awrhon. Gan fy mod yn cael y fath freuddwydion yn achlysurol, peth digon naturiol, un tro, yw i freuddwyd o'm heiddo gael ei wireddu. Ni freuddwydiais, mor bell ag yr wyf yn gallu cofio, am ddim rhagor na'r ffaith o farwolaeth fy nghyfeilles; ac heblaw hyn, yr oeddwn wedi clywed ei bod yn wael. Felly y ffordd symlaf o esponio y ffaith hon ydyw dweyd

mai digwyddiad hollol oedd, h.y., nad oedd unrhyw gysylltiad rhwng fy mreuddwyd i a'r amgylchiad o farwolaeth y ferch ieuanc.

Y mae'r cwestiwn yma o ddigwyddiad yn beth dyrus ei drin ac anodd ei ddeall. Cymerwn rai engreifftiau. Darllenais y diwrnod o'r blaen am hen forwr yn y Ceinewydd a chanddo bum' mab (nid wyf yn sicr p'un ai pump neu chwech) yn byw mewn gwahanol rannau o'r byd, rhai ar dir, a rhai ar fôr. Un diwrnod, cafodd lythyrau oddiwrth bob un o'r meibion. Pe bai yn ddydd pen blwydd y tad, a phe bai'r plant yn arfer ysgrifenu ato erbyn y dydd hwnw, dyna esponiad ar y ffaith. Pe bai'r meibion wedi cytuno ar ysgrifenu ato erbyn y diwrnod hwnw, byddai yn eglurhad arall. Gellir hefyd tybied fod yna rhyw gysylltiad meddyliol rhwng y brodyr a'r tad; ac yn y blaen faint a fyner. Ond nid dydd pen ei flwydd ydoedd, ac nid oes reswm dros gredu fod yna gytundeb yn bod rhwng y bechgyn. Felly, mae'n amlwg mai'r eglurhad symlaf yw'r un sydd yn tybied mai digwyddiad hollol oedd y ffaith, h.y., nad oedd gysylltiad rhwng y ffaith fod llythyr y brawd cyntaf wedi dyfod, a'r ffaith fod llythyr yr ail wedi cyrhaedd ar yr un dydd, ac yn y blaen.

Eto, tybiwch fy mod yn byw yn Llundain, ac fod cyfeillion o'r wlad yn galw arnaf yn achlysurol yn fy llety, d'weder ar gyfartaledd tua deg yn hyd y flwyddyn. Un diwrnod, haner dydd, dywed gwraig y tŷ wrthyf fod Mr. Jones, pregethwr o Geredigion, wedi galw arnaf, a chan nad oeddwn i mewn, wedi dweyd y galwai dranoeth. Yr wyf wrth fy ngorchwyl yn y prydnawn, ac wedi dychwelyd yn yr hwyr, dywed gwraig y tŷ fod Mr. Davies, pregethwr o Sir Gaerfyrddin, wedi galw arnaf yn y llety, ac yn gofidio nas medrai fy ngwel'd. Gwn fod y Mri. Davies a Jones yn arferol dod i Lundain yn achlysurol, ond synaf fod y ddau wedi galw arnaf ar yr un dydd. Ceisiaf ei esponio heb dybio mai digwyddiad yw. Y mae'n anodd credu fod dau bregethwr o Gymru wedi galw arnaf yr un dydd heb fod rhyw gyssylltiad rhwng symudiadau'r ddau. Tybiaf fod yna *excursion* o Gaerfyrddin i weled yr Arddangosfa yn y Brif-ddinas. Y mae'r esboniad yn

Rhanol Gywir.

Y mae cyfarfodydd gweinidogion yn Llunden yn ystad yr wythnos, ac y mae yna gyssylltiad rhwng ymweliadau y ddau bregethwr. Wrth gwrs, nid yw yn *amhosibl* i'r peth fod yn ddigwyddiad, a dim ond hyny. Nid yw yn amhosibl i'm pedwar cyfaill, Smith, o Birmingham; Brown, o Southampton; Grenouille, o Paris; a Llywelyn, o Landyssul, oll i dalu ymweliad a mi cyn yr af im' gwely heno; ond yr wyf mor sicr na wnaiff hyny ddigwydd fel y rhoddwn bob dimau o'm heiddo, sydd lawer i mi er mor ychydig ydynt, i'r cardotyn nesaf ddaw heibio, pe cymerai hyny le. Yn wir, y mae'r anhebygolrwydd yn sicrwydd i bob pwrpas ymarferol. Hyny yw, yr wyf yn hollol siwr na wnaiff Smith, Brown, Grenouille, a Llywelyn ddim galw yn fy nhŷ heno. A phe baent yn galw ni fynwn gredu o gwbl mai digwyddiad hollol oedd; byddwn ar unwaith yn gofyn am eglurhad o'r ffaith.

Tybiwch eto fy mod yn *meddwl* am bedwar person yn y dref hon, heb ddweyd fy meddwl wrth neb, a thybier ymhellach, fod y pedwar person hyny yn dyfod yma i'm tŷ cyn pen yr awr, heb imi wneyd dim ond meddwl am danynt. P'un fuasai'n haws i'w gredu, i'r pedwar ddod o ddigwyddiad, neu fod a fyno'm *meddwl* a'u dyfodiad? Faint bynag yw ein rhagfarn yn erbyn y gred o ddylanwad meddwl ar feddwl, buasem yn mabwysiadu'r esboniad olaf yn ddibetrus o flaen y cyntaf. Ai digwyddiad oedd i'r wraig hono yn Metz i freuddwydio fod ei meddyg wedi marw ar y 18fed o Fedi? Ai dychymyg oedd ei weled yn dyfod at droed ei gwely? Ai rhyw swn disail yn ei hymenydd oedd y geiriau

dd'wedodd, "Edrychwch, yr wyf newydd farw."

Gwelodd Petrarch, yn 1348, ei anwylaf Laura, mewn breuddwyd ar y dydd y bu hi farw, ac er cof am y weledigaeth hon y mae wedi ysgrifenu ei gân ardderchog, "Buddugoliaeth Angau." Ai crebwyll y bardd yn unig sydd i gyfrif am y breuddwyd hwn?

Dyna'r fam hono yr ysgrifena A.D. am dani, yn breuddwydio am weled ei brawd oedd ar y pryd yn yr America, yn marw yn ei breichiau, ac yn clywed fisoedd ar ol hyny ei fod wedi marw ar amser ei breuddwyd. Onid yw yn anmhosibl credu mai digwyddiad hollol oedd i'r brawd farw yn gywir ar amser y weledigaeth? Ai nid haws coleddu'r syniad fod yna rhyw gyssylltiad rhwng y breuddwyd a'r amgylchiad ar droion?

Drosodd a throsodd yr ydym yn clywed am freuddwydion, yn y rhai y ceir marwolaethau yn digwydd ar adeg y breuddwyd i'r funyd. Onid yw hyn yn ein gyru i gredu fod yna ryw berthynas rhwng y breuddwyd a'r ffaith mewn rhai achlysuron? Ac os yw'r berthynas hono'n bodoli, rhaid fod yna rhyw bwerau yn gweithio ar neu drwy ein meddyliau na chyfrifir am danynt yn ein hathroniaeth gyffredin.

Chwi welwch mai difrifoldeb marwolaeth sydd fynychaf yn galluogi y drydaniaeth gyfrin hon i redeg rhwng meddwl a meddwl, a pheth sydd yn fwy naturiol? Os oes unrhyw amgylchiad yn ddigon mawr i effeithio ar feddwl o bell, marwolaeth yw hwnw.

Pa ferch fuasai'n cellwair am farwolaeth ei mam, pa dad fuasai'n llunio anwiredd am fynudau olaf ei blentyn anwyl? Na, nid yw pobl yn cellwair ar beth mor ofnadwy ddifrifol ag angau y rhai a anwylant. Gofaled y darllenydd beidio tybio oddiwrth hyn fy mod am haeru fod dal ar bob gweledigaeth.

Nid yw breuddwydion yn wir bob amser.

Yn wir, anaml y mae unrhyw berthynas rhwng y breuddwyd a'r ffaith a'i canlyna; o leiaf, nid oes neb a eill ddangos fod yna unrhyw ddeddf yn cyssylltu'r ddau yn y rhan fwyaf o achlysuron. Ychydig o honom fedd y glust a glyw mewn distawrwydd, a llygad a wel yn y tywyllwch. Gwaeddwch mewn ystafell lle mae amryw lestri gwag, cewch y swn yn cael ei roddi allan drachefn o un neu ddau o'r llestri hyn yn unig. Dim ond y llestr hwnw sydd mewn cydgord a'r llais sydd yn medru ei adseinio. Yr un fath y tybiaf y mae y meddwl yn gweithredu. Meddyliwch fod yna ryw deimlad dwys iawn yn fy meddianu, a'm henaid yn gwaeddi yn ei ing gyda holl nerth distawrwydd. Nid oes glust a'i clyw ond yr hon sydd yn digwydd bod mewn cydgord a'm henaid i; ac nis gŵyr eiddo pwy a fydd y glust hono; dichon mai eiddo rhywun na chyfrifaf ymhlith ceraint na chyfeillion a fydd. Ychydig o honom a ŵyr pwy sydd a chlust i glywed, a chalon i adsain eu griddfanau.

Wrth gwrs, nid yw hynyna ond fy namcaniaeth i ar y cwestiwn, neu yn hytrach yr esponiad a rydd ysgrifenwyr yn gyffredinol ar y mater. Ond ymddengys i mi mai y peth mawr a ddengys y breuddwydion yw fod yna

Gyssylltiad rhwng y breuddwyd a digwyddiadau ar droion.

Pe bai genym ond ambell i ffaith heb ei harchwilio ni fuasem yn gwneyd llawer o sylw o'r mater; ond y mae genym ganoedd o freuddwydion wedi eu cofnodi sydd yn dangos yn eglur fodolaeth rhyw fath o berthynas rhwng breuddwyd a'r hyn a ddigwydda ar y pryd, neu ar ol hynny. Amhosibl nad oes yna ronyn o wirionedd mewn hanesyn fel y canlyn: Proffwydodd David Fabricius y byddai farw Mai 7fed, 1617. Cymerodd bob gofal i ochelyd ei dynged, ac ar y dydd a enwyd ni fynnai adael ei ystafell. O'r

diwedd, am ddeg o'r gloch yn yr hwyr, aeth allan am ychydig awyr ffres, a lladdwyd ef gan lafurwr a phig-fforch. Nid wyf am roddi unrhyw esboniad am y ffeithiau hyn, yr oll wyf am ddangos yw y cyssylltiad rhwng y meddwl a digwyddiad yn y presenol, mewn pellder lle neu yn y dyfodol, mewn pellder amser.

Nid ar lyfrau ychwaith, na thystiolaeth dieithriaid yr wyf yn sylfaenu fy syniadau. Drosodd a throsodd y mae cyfeillion o barch a safle wedi dweyd wrthyf hanesion am danynt eu hunain sydd yn fy ngorfodi i goelio mewn rhyw fath o *bwer* meddyliol nas caniateir ei fodolaeth mewn Gwyddoniaeth nag Athroniaeth, hyd yn hyn. Nid wyf wedi cofnodi yr hyn wyf wedi glywed fy hun ar bapyr, ond mae llawer o'r hanesion hyn yn debyg i'r un a ganlyn a rydd Flammarion yn ei lyfr ar yr 'Anhysbys.' Dywed Gratien de Semur am gyfeilles iddo, Madame Saulce, gwraig i wr cyfoethog yn nhrefedigaeth Saint Domingo, ei bod wedi gwaeddi mewn parti cardiau, "Y mae M. de Saulce (ei gwr) wedi marw," gan syrthio yn wysg ei chefn. Ar yr un dydd lladdwyd ei gwr gan y Negroaid.

Onid yw'r gweledigaethau a ga'r claf a'r egwan, a'r swn a glyw'r neb sydd ar wely angau fel pe'n dangos fod

Y LLEN YN TENEUO,

a'r byd ysbrydol i'w ranol weled a'i glywed drwyddi?

Clywais briod galarus yn ddiweddar yn adrodd am ei ddiweddar wraig yn ymgomio cyn ei marwolaeth a hen gyfeillion oeddynt wedi ei hir flaenu. Yr oedd yn amhosibl peidio credu, meddai ef, yn modolaeth byd arall, o dan y cyfryw amgylchiadau. Sut y gellir egluro marwolaeth cyfaill imi, gwr a berchid yn fawr yn ei dref, ac a edmygid am ei gymeriad pur, yr hwn, ac efe yn nghrafanc marwolaeth a wenodd, ac a estynodd allan ei freichiau, gan lefain, "Arglwydd Iesu, derbyn f'enaid," a dynodd ei anadliad olaf gyda'r gair diweddaf.

Pwy ŵyr o ba ryw freuddwyd y dihunwn yn ein hawr olaf? oblegid yn ngeiriau'r gwr o ganfyddiad gwyrthiol y gweledydd—

"*We are such stuff as dreams are made of*
And our little life is rounded with a sleep."

CONGL YR AWEN.

PEDWAR ENGLYN

I'r diweddar J. Spencer Lloyd, Ysw., Treorci. Buddugol yn Nghapel-y-Groes.

O golli dyn a gallu da—wylo
O alaeth wna Rhondda:
Ceredigion, hon bruddha
Am ei Lloyd, nes ymlwyda.

I luoedd daeth da lawer—o law wen
Yr haelionus Spencer;
Coeth, uniawn, cu a thyner,
Hynaws fu yn ei oes fer.

Cwrtnewydd.

Un odiaeth, eang syniedydd,—gonest
Ac enwog fasnachydd:
A gwir, anwyl, garenydd,
Glwys a doeth fel glasiad dydd.

Ein Lloyd aeth i wlad o hedd—yn ieuanc
Heb newid ei fuchedd;
Dywyllu'i barch, nid all bedd,—
Na rhanol guddio'i rinwedd.

GWARNANT WILLIAMS.

CWYN COLL

Am David Thomas (Dewi Hefin). Ganwyd ef yng Nghnap Sych, Llan Wenog, Mawrth 4ydd, 1828. Croesoedd ei enaid am "loewach nen" o'r Glas Lwyn, Cribyn, Mawrth 9fed, 1909. Claddwyd yn Nghribyn, Mawrth 13.

DEWI HEFIN wedi marw!
Wedi teithio'n hir!
Rhoes ei oes i ganu'n loew,—
Beth fwy byw a phur?

Lenor, Athro, ac Awenydd,—
Weithiwr hael di wad;
Hawlia gofeb ddeil yn newydd,—
Gorsedd calon gwlad.

DEWI HEFIN.

Gwallsain sydd yn mhryddest Awen
Ceredigion hardd;
Serch at hon oedd hedd ei elfen—
Batriarchaidd fardd!

Tyfodd o dan wawl athrylith
Daniel Ddu a'i gân;
Yfodd yntau hud y fendith,—
Cadwodd hi yn lân.

Daliodd ganwyll Addysg Cymru
Yn y cyfnos prudd;
Rhoes ei ore er ei chodi
At y Wawr a'r Dydd.

Hwyrnos bywyd, mewn anwyldeb
Dreuliodd gyda gwên;
Gwybu wireb Anfarwoldeb,—
"Gwrthod myn'd yn hen."

Wedi pedwar ugain mlynedd,—
Einioes brydferth, bêr!
Aeth yn *ieuanc* i dangnefedd
Gogonianau Nêr.

Tawel huned! melus cofio
Byw ei salmau aur;
Herio cur beddrodau angho'
Wna ei "Flodau"* claer.

Aberdar. E. B. MORRIS.

ENGLYNION COFFA AM DEWI HEFIN.

Am bêr awenydd mae bronau—yn friw ;
O fröydd trallodau
Fe droe un a fedrai wau
Gwê wiwdlws o gu odlau.

Rhwydd odiaeth fardd doeth ei fin,—da 'i awen
Ydoedd Dewi Hefin ;
Bardd a'i waith yn beraidd win,
A gwir ddwys ei gerdd iesin.

Athraw ydoedd eithriadol—ei feddwl;
Rhifyddydd rhyfeddol ;
Cain ysgrifenai'n fanol,
Gryno wr, a graen o'i ol.

Mi goffawn mai o gyff enwog—a llad
Llwydiaid coeth Llanwenog
Yr hanai,—rhyglyddai glog
Y gwiw dadau godidog.

Nid oes *amlwg*, ond *symledd*—gwyleiddiol
Goleddai'n ei fuchedd ;
O'i fwyn oes i hafan hedd
Ai'n dawel yn y diwedd.

Byw i'w wlad yn y "Blodau"*—eto fydd
Etifeddiaeth oesau ;
Eu bri hwynt wna hir barhau
A gwanwyn yn eu gwenau.

D. R. DAVIES (*Cledlyn*).
Cwrtnewydd.

Ein Dewi'n eisieu : y da hanesydd
I Geredigion fu'n gâr diogwydd ;
Gwyl, eang, lenor a gloew englynydd
A wniai benill a'i awen beunydd ;—
Ei wynaf "Flodau"* fywhä aelwyddydd :
I'w goroni aeth, fy hen garenydd
Yn llaw Ion (er llawenydd),—mewn "Gwlad Wen"
Y cân ei awen a'i *heco'n* newydd.

GWARNANT WILLIAMS.
Cwrtnewydd.

---

*Ei lyfr barddonol :—"Blodau Hefin."

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol yr uchod yn Mhantdefaid, dyddiau Mawrth a Mercher, Mawrth 30 a 31. Edrychid yn mlaen at y cyfarfodydd hyn fel rhai arbenig, gan fod chwech o gynrychiolwyr y Gymdeithas Undodaidd Llundain i fod yn bresenol. Credwn na chafodd neb o honom ein siomi yn ein disgwyliadau. Yr oedd yn wledd ysbrydol o'r dechreu i'r diwedd. Nid oedd yn bresenol ond dau o weinidogion Sir Forganwg, oherwydd cyfarfodydd cyffelyb gynhelid yn Abertawe y dydd dilynol, a mawr ddrwg oedd gan bawb glywed y rheswm am absenoldeb Mr. Evans,

Cribyn. Da genym allu dyweyd, yn ol y newyddion diweddaraf, ei fod yn cyflym wella.

Dechreuwyd y cwrdd nos Fawrth gan y Parch. E. O. Jenkins, a chafwyd yr anerchiad cyntaf gan y Parch. T. P. Spedding. Ei bwnc ydoedd "Undodiaeth fel ffydd genhadol." Dilynwyd ef gan y Parch. J. Hathren Davies, yn Gymraeg, yr hwn anogai Undodiaid i fod yn ffyddlon i'w hegwyddorion, ac i fod yn effro a byw er lledaenu yr egwyddorion hyny. Yna aeth Mr. John Harrison, Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Llundain, yn mlaen, a dywedodd ei fod ef yn cario oddiwrth y Gymdeithas, o'r hon yr oedd ef yn Llywydd, ei dymuniadau gwresocaf a goreu i holl eglwysi y cylch. Gweler anerchiad Mr. Harrison mewn man arall. Yn gynar boreu dydd Mercher cyfarfu y pwyllgor chwarterol. Dechreuwyd y gwasanaeth dilynol gan y Parch. R. C. Jones, a darllenwyd papyr dyddorol gan Miss Helen Brooke Herford ar y testun "Beth all menywod wneud dros ein Eglwysi." Yna cafwyd pregeth Gymraeg gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdare, ar "Y Dyn Crist Iesu." Ar ddiwedd cwrdd y boreu estynwyd croesaw ffurfiol i'r ymwelwyr gan y Parch. R. J. Jones, yn cael ei eilio gan y Parch. John Davies ac yn cael ei gefnogi gan weinidog y lle. Cydnabyddwyd y croesaw gan Mr. Harrison, Mr. Bowie, a Mr. Tarrant.

Dechreuwyd cwrdd y prydnawn gan y Parch. Lewis Williams, a phregethwyd gan y Parch. John Davies yn cael ei ddilyn yn Saesneg gan y Parch. W. G. Tarrant, B.A.

Yn yr hwyr dechreuwyd gan Mr. Glyn Evans, Aberystwyth, yna cymerodd Mr. J. R. Thomas, Llywydd y Gymdeithas Gymreig, y gadair, a chafwyd ganddo araeth bwrpasol iawn fel rhagarweiniad i'r anerchiadau oedd i ddilyn, y rhai oedd fel y canlyn:—"Our Unitarian message and mission," gan Mr. Harrison; "Unitarians and Education," gan Mr. Bowie; "The Future of our Sunday Schools," gan Mr. Ion Pritchard; "The Trend of Modern Thought in Religion," gan Mr. Tarrant. Gorphenwyd yn y dull arferol gyfres o gyfarfodydd, ar lawer ystyr y pwysicaf a lluosocaf a gawsom er ys llawer dydd. Anhawdd fuasai mynegu yn gyflawn yr oll a gafwyd, a chredwn y bydd dylanwad da yn dilyn. Yr oedd y canu yn ysprydoliaeth ynddo ei hunan, o dan arweiniad Mr. L. T. Thomas, Gyfeile, tra yr oedd Miss Jones, Brynowen, a Miss Jones, Ceginan, wrth yr organ. Diolch am gynrychiolaeth mor lluosog o Llandyssul hyd Caeronen, a gwelsom yno rai hefyd wedi dod o gyffiniau Tregaron ac Aberystwyth. Yr oedd y trefniadau wnawd gan y cyfeillion yn Mhantydefaid er croesawu'r dieithriaid yn bobpeth ellid ddymuno, a chawsant weled eu hymdrechion yn cael eu coroni â llwyddiant. Gobeithio yr erys dylanwad da yr holl gyfarfodydd yn allu bywiol, fyddo yn ein gwneud ni oll yn ffyddlonach a mwy gweithgar yn ngwinllan yr Arglwydd.

PRIODASAU.

MAWRTH 23, yn swyddfa y cofrestrydd, Pontardawe, Mr. Henry J. Morgan, Trebanos â Miss Eleanor Williams, Penybanc, Craigcwm.

EBRILL 11, yn nghapel yr Undodiaid, Morgan St., Pontypridd, gan y Parch. J. Park Davies, Mr. Daniel Davies, Basset St., â Miss Lily Mildred Jenkins, Bonvilston Road. Gan mai hon oedd y briodas gyntaf i gymeryd lle yn yr adeilad newydd, anrhegwyd y pâr ifanc â Beibl.

EBRILL 14eg, yn nghapel Hebron, Clydach-ar-dawe, o flaen y cofrestrydd, a'r Parchedigion D. Eiddig Jones, Clydach-ar-dawe, ac R. G. James, Ystalyfera, unwyd mewn glan briodas, Mr. Ben T. Jones. B.A., L.C.P., Llanbedr-pont-Stephan, a Miss Hannah Evans, Ystalyfera.

MARWGOFION.

MAWRTH 20, Jane, priod John Thomas, Bwlchybryn, gynt o Pantybryn, Talgareg, yn 75 oed. Cystudd byr oedd ei chystudd olaf, ond yr oedd yn gystudd caled. Claddwyd y Mercher canlynol yn Capelyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Yr oedd yr ymadawedig yn fenyw ddiwyd a llafurus yn ei chartref, yn un a gair da iddi gan ei chymydogion. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Capelyfadfa, yn un o'r aelodau tawel hyny ag y mae bywyd pob cynulleidfa yn ddyledus iddynt. Mae priod oedranus, merch, wyr, a pherthynasau eraill heddyw yn alarus ar ei hol; gobeithio y cânt nerth i alaru fel rhai a gobaith ganddynt.

MAWRTH 21, Daniel Thomas, Ffactri Crugyreryr, gynt o Llaindelyn, Talgareg, yn 50 oed. Claddwyd y Mercher canlynol yn Capelyfadfa, gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. A. Thomas, yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. Mab ydoedd yr ymadawedig i'r diweddar John Thomas, y Ffactri, un o hen ffyddloniaid Capelyfadfa, ac felly cafodd ei ddysgu'n foreu ac yn drwyadl i gymeryd dyddordeb yn ngwaith ei eglwys a'r Ysgol Sul. Cofiodd yntau y wers a bu yn aelod ffyddlon yn y cwrdd, yr Ysgol Sul, a'r Ysgol Gân. Nid oedd ei iechyd ond gwanaidd er's rhai blynyddau ac amlwg ydoedd fod amser ei ymddatodiad yn neshau. Mae bellach wedi mynd, "a'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy." Nerth a gaffo ei ferch, ei frawd, a'i chwaer, a'r perthynasau ereill i alaru'n gymedrol.

MAWRTH 29, yn 51 oed, Mrs. Letitia Thomas, anwyl briod Mr. David Thomas, Cloth Hall, Pantdefaid, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn weithgar iawn yn eglwys Pantdefaid er yn ieuanc, ac wedi bod yn wraig ofalus o'i chartref. Un gymwynasgar ei hysbryd, serchog ei chroesaw, a pharod i roddi rheswm am y gobaith oedd ynddi. Cafodd gystudd hir, ond dioddefodd y cyfan yn dawel. Gadawodd briod a pherthynasau eraill mewn galar o'i cholli. Y dydd Iau dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn Pantdefaid. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. O. Jenkins a Lewis Williams, Rhydygwin.

EBRILL 4, yn 39 oed, David Evans, mab hynaf Mr. a Mrs. Evans, Pwllffein, Llandyssul. Yn Sir Forganwg y bu y dyn ieuanc hwn yn treulio ran fwyaf o'i oes, ond daeth adref ar ol colli ei iechyd yn ngwlad y mwg, a bu yn gweithio ar dyddyn ei dad hyd nes i'w yspryd fyned at Dduw, yr hwn a'i rhoes. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod crefyddol dichlynaidd ei gymeriad, ac wedi bod yn weithiwr diwyd a darbodus. Gadawodd dad a mam, brodyr a chwiorydd, mewn galar mawr ar ei ol. Y dydd Mercher dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn Mhantdefaid. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Arthur Thomas, pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Jones (A.), Carmel, a gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

EBRILL 4, yn 8 mis oed, Tidien, merch fechan David W. ac Elizabeth Bowen, Trebanos. Cystuddiwyd y lili wen yma am fisoedd lawer, fel y methodd ddal yn hwy o dan bwysau prydferthwch anghydmarwol blodau Sul y blodau. Derbynied y tad a'r fam ein cydymdeimlad yn eu hiraeth ar ol eu geneth fach, bert. Claddwyd y Mercher dilynol wrth gapel Gellionen, dan weinyddiaeth y Parch. W. Alfa Richards.

Tydi'n fud? Tydien fach,—na, mae genyt
Mwy ganig felusach;
Daw swyn o dy seiniau iach
Ddyd dy wedd yn ddedwyddach.

EBRILL 10, yn 66 oed, David Thomas, Castellhywel Arms, ar ol yn agos i fis o gystudd caled. Yr oedd yr ymadawedig yn adnabyddus i gylch eang, ac yn un a berchid yn fawr ar gyfrif ei onestrwydd fel gweithiwr, a'i ddidwylledd fel cymydog. Dyn o ychydig eiriau ydoedd, yn gwneud ei waith pa un a fyddai rhywun yn gweld ai peidio. Bydd ei le yn wag. Gadawodd briod, plant, wyrion, chwaer, brodyr, a pherthynasau eraill i alaru eu colled. Claddwyd y Mercher canlynol yn Capel-y-fadfa, gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y Parch. E. O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. A. Thomas.

EBRILL 13, yn 51 oed, Mr. Thomas Evans, Temperance House, Pontwelly, Llandyssul, mab i'r diweddar Mr. John Evans, Pantycroy, a brawd i Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul. Bu yr ymadawedig yn clafychu am flynyddau, a derbyniodd bob tynerwch gan ei chwaer, yn nhy yr hon yr oedd yn byw. Y dydd Gwener dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol yn mynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd yn y ty, a phregethwyd yn y capel gan y Parch. Arthur Thomas, a gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

EBRILL 14eg, yn 53 oed, Thomas Jones, Cross Hands, Cwrtnewydd. Saer maen oedd wrth ei alwedigaeth ac wedi bod yn gweithio er's rhai blynyddau bellach yn Nghlydach Vale, Cwm Rhondda, lle yr oedd yn trigo ar adeg ei ymadawiad. Bu yn gyfaill ffyddlon i'r achos Undodaidd er ei gychwyniad yn y lle. Ni chafodd ond cystudd byr iawn fel yr ymddengys oddiwrth y ffaith ei fod yn gweithio y dydd Gwener blaenorol i'w farwolaeth. Claddwyd ei weddillion marwol y Sadwrn dilynol yn nghladdfa gyhoeddus Trealaw pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., Pontypridd. Gadawa weddw a thri o feibion i alaru ar ei ol. Heddwch a thangnefedd Duw a fydd gyda hwynt oll.

MANION AC HANESION.

Y GYMDEITHAS GYMREIG.—Penderfynwyd yn y Pwyllgor gynhaliwyd yn Pantdefaid ar fod casgliad blynyddol yr eglwysi tuag at gyllid y Gymdeithas i gael ei wneud y Sul cyntaf yn mis Mai, neu y Sul cyfleus agosaf i hyny. Gobeithio y gwna swyddogion pob eglwys perthynol i'r Gymdeithas wneud sylw o hyn, a danfon eu casgliadau, yn nghyd â chyfraniadau aelodau yn ddiymdro i'r Trysorydd, Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul.

CASGLIADAU BLYNYDDOL YR YSGOLION SUL.—Dymunir cydnabod yn ddiolchgar y derbyniadau canlynol:—Brondeifi, 7s. 6c.; Caeronen, 6s. 7½c.; Alltyblacca, 5s.

CAPELYGROES.—Yn unol a'i harfer, er's amryw flynyddau bellach,

rhoddodd Mrs. Morgans, Moelfre, eleni eto wledd o dê i'r plant prydnawn yr arholiad. Haedda Mrs. Morgans ein diolchgarwch am ei charedigrwydd ac am ei dyddordeb ymarferol yn y plant.

CRIBYN.—Ar y 18fed o Ebrill—prydnawn yr arholiad—cafodd plant y dosbarth Beiblaidd wledd o dê. Daeth nifer fawr o blant yn nghyd, a mwynhasant eu hunain yn fawr.

TALIADAU.—Y mae tâl yn ddyledus gyda'r rhifyn hwn. Da chwithau, ddarllenwyr, cynorthwywch y dosparthwyr fel y gallont hwythau eilwaith ein cynorthwyo ninau.

PONTYPRIDD.—*Tê a Darlith.*—Drwy garedigrwydd Mr. a Mrs. John Lewis, Top Hill, cafodd mynychwyr Capel Morgan Street wledd ragorol o dê prydnawn dydd Iau, Mawrth 25ain, a darlith neillduol o alluog ar ol hyny gan Mrs. Lewis ar y diweddar William Rathbone. Nid gorchwyl hawdd yw gwneud cyfiawnder â'r darlithydd na gwrthddrych y ddarlith mewn gofod mor fyr ag sydd genym yn awr at ein gwasanaeth. Nid yn unig yr oedd William Rathbone yn Undodwr selog ac adnabyddus ond yr oedd hefyd yn ddinesydd o rinwedd a bri. Enwogodd ei hun fel dyngarwr, diwygiwr, ac Aelod Seneddol am dymor o dros chwarter canrif. Llafuriodd yn galed yn mhlaid addysg—elfenol ac uwchraddol. Erys ei goffadwriaeth i fod yn felus yn mhrifysgolion Lerpwl a Bangor am amser maith i ddyfod. Bu yn offerynol i ddwyn amryw o welliantau i fewn i Ddeddf Tlodi, y fasnach Drwyddedol a Llywodraeth Leol. Fel un engraifft o'i ddylanwad a'i weithgarwch nid oes eisieu ond son am ei waith yn casglu pedwar ugain mil o bunau mewn chwech wythnos er gwaddoli chwech cadair newydd yn Mhrifysgol Lerpwl. Fel Cymry teimlwn yn ddyledus iddo hefyd am y ran flaenllaw gymerodd yn y gorchwyl o ddwyn i weithrediad y gyfundrefn ragorol sydd genym o addysg ganolraddol. Cafodd un bregeth draddodwyd gan y Parch. John Hamilton Thom ddylanwad rhyfeddol ar ei feddwl ac fel ffrwyth o'r argraff hwn daeth y Genadaeth Gartrefol sydd mor flodeuog heddyw yn Lerpwl i fodolaeth yn ddioedi. Cysegrodd nid yn unig arian ac amser ond hefyd ei holl nerth er gwella tynged ei gyd-ddynion. Yr oedd ei enw yn gysylltiedig â phob achos da a gosodai ei ysgwydd wrth bob symudiad daionus. Bu yn gadeirydd y Gymdeithas Ryddfrydig yn Lerpwl ac yn gyfaill mynwesol i Mr. Gladstone mewn llawer brwydr. Yr oedd gan yr olaf syniad uchel iawn am dano ac ymgynghorai ag ef yn wir aml. Ond er mor fawr a defnyddiol oedd mewn cyfeiriadau ereill cofir am dano mewn amser sydd i ddyfod fel sylfaenydd y "District Nursing." Bwriedir dathlu haner can mlwyddiant y sefydliad yn Lerpwl yn ystod y mis presenol. Disgwyliwn y clywir am ei enw yr adeg hono yn lled fynych. Mwy clodfawr efallai na'r cyfan yw y ffaith i William Rathbone barhau i fod yn Undodwr twymgalon yn ystod ei holl fywyd. Codwyd y cri o heresi yn ei erbyn ar droion fel y gwelwyd y dydd o'r blaen yn nglyn a Taft, Llywydd yr Unol Dalaethau, ond yn ffodus i ddim pwrpas. Pan yn sefyll fel ymgeisydd Seneddol dros Gaernarfon dygodd rhywrai y cyhuddiad yn ei erbyn nad oedd ganddo unrhyw fath o grefydd. Syrthiodd y cynllun i'r llawr ac aeth Rathbone i fewn yn fuddugoliaethus. Y Sul canlynol i'w farwolaeth dywedodd Esgob Carlisle am dano,—"Nid yw wedi syrthio i fy rhan i yn aml i gyfarfod â pherson mwy ysbrydol. Yr oedd ei galon fel eiddo plentyn bach, yr oedd yn feddianol ar nerth cawr, ac yr oedd ganddo dduwioldeb sant." Ysgrifenodd Florence Nightingale ar y dorch ddanfonodd i osod ar ei arch y deyrnged hon:—"Er coffadwriaeth a dwfn barch i un o feibion goreu a mwyaf Duw." Teimlwn yn ddiolchgar i Mrs. Lewis am ymdrin mor feistrolgar â thestun mor fawr. Gobeithio y gwnaiff dalu ymweliad a manau ereill i draddodi yr un ddarlith.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssnl.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq. W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Shopping by Post.

By means of our specially organised Post Order Department the Shopping Facilities enjoyed by Town Residents are at the disposal of those who live in the Country Districts, the resources of our huge establishment are, in fact, brought as near as the Nearest Pillar Box.

All orders dispatched, wherever possible, same day as received. No order too large for execution, none too small to receive attention.

Ben Evans & Co. Ltd.,

"THE HOUSE FOR QUALITY,"
SWANSEA.